



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd
Y rhagdybiaeth o blaid
datblygu cynaliadwy

Dyddiad cyhoeddi: 2 Mawrth 2012
Ymatebion erbyn: 25 Mai 2012

Trosolwg

Mae'r papur ymgynghori hwn yn ceisio barn am ein dull o gryfhau polisi cynllunio cenedlaethol drwy gyflwyno datganiad clir ynghylch y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy.

Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw 25 Mai 2012.

Dylid darparu ymatebion yn ysgrifenedig neu'n electronig gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a welir yn Atodiad C.

Gallwch ymateb gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost:

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a welir yn Atodiad C a'i hanfon i'r cyfeiriad canlynol: planconsultations-C@wales.gsi.gov.uk

Dylech nodi "Datganiad ynghylch rhagdybiaeth" yn y llinell ar gyfer pwnc eich e-bost.

Post:

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a welir yn Atodiad C a'i hanfon i'r cyfeiriad a ddarperir ar y dudalen hon.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cynhwyswch gyfeiriadau at y rhyngrwyd neu at ddogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i'r rhai yr ymgynghorir â nhw, ee cyfeiriad y tudalennau ymgynghori ar y we, neu atodiadau manwl i'r ymgynghoriad.

Manylion cysylltu. I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Polisi Cynllunio

Yr Is-adran Gynllunio

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: planconsultations-C@wales.gsi.gov.uk

Rhif ffôn: Andrew Charles ar 029 2082 3869

<http://wales.gov.uk/consultations/planning>

Diogelu data: Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, dywedwch hynny wrthym yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair

Mae cynaliadwyedd wrth wraidd agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Mae cynaliadwyedd yn golygu pobl iach a chynhyrchiol; cymunedau bywiog a chynhwysol; amgylchedd amrywiol a gwydn ac economi carbon isel sy'n ddatblygedig ac yn arloesol.

Rydym wrthi'n ystyried sut y gallwn gryfhau ein dull o ddarparu dyfodol gwell i Gymru drwy Fil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig, ac rydym yn edrych hefyd ar sut y dylai'r system gynllunio weithredu yn y dyfodol drwy Fil Cynllunio arfaethedig. I ategu'r gwaith hwn, rydym wrthi'n ystyried sut y gallwn gryfhau datblygu cynaliadwy yn ein system gynllunio'n awr.

Mae ein system gynllunio yn hanfodol ar gyfer sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n bodoli er mwyn rheoleiddio'r broses o ddatblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd. Ei diben yw cysoni anghenion o ran datblygu a chadwraeth, gan sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac amwynder yn y modd y caiff tir ei ddefnyddio a chan warchod adnoddau naturiol a'r amgylchedd hanesyddol. Mae'n gwneud hynny er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy.

Ers datganoli rydym wedi cyflwyno is-ddeddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau ac rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i hybu'r nod hwn. Rydym am barhau â'r ymrwymiad hwn drwy ddiwygio polisi cynllunio cenedlaethol i gryfhau ac egluro'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy.

Ar hyn o bryd, mae ein system gynllunio yn ffafrio datblygu cynaliadwy mewn dwy ffordd.

Yn gyntaf, gall y system gynllunio hyrwyddo ac arwain gwaith datblygu fel ei fod yn digwydd yn y lleoliad mwyaf cynaliadwy – drwy baratoi a mabwysiadu cynllun datblygu ar gyfer ardal dros gyfnod penodedig. Mae deddfwriaeth yn mynnu bod y cynlluniau hyn yn cael eu paratoi gyda'r bwriad o gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy, ac mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arfarniad cynaliadwyedd o'u cynlluniau datblygu.

Yn ail, gall y system annog cynaliadwyedd mewn prosiectau unigol drwy roi caniatâd i gynigion datblygu sydd wedi'u dylunio'n dda ac yn gynaliadwy, lliniaru effeithiau andwyol o safbwynt cynaliadwyedd, neu atal cynigion sy'n ymwneud â datblygu anghynaliadwy drwy wrthod rhoi caniatâd iddynt.

Wrth gryfhau ein dull o gynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy, mae angen i ni sicrhau bod penderfyniadau cynllunio ar bob lefel yng Nghymru yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Y ffordd orau o wneud hynny yw i gymunedau lleol, mewn cydweithrediad â'u hawdurdod cynllunio lleol, flaengynllunio a rheoli'r newid hwn yn effeithiol ac yn gynaliadwy drwy fabwysiadu a gweithredu Cynllun Datblygu, ac yna gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun mabwysiedig gyda'r bwriad o sicrhau datblygu cynaliadwy.

Mewn rhai ardaloedd o Gymru nid oes Cynllun Datblygu mabwysiedig ar waith, ac mewn ardaloedd eraill efallai fod polisiâu mewn cynlluniau mabwysiedig wedi dyddio neu wedi'u disodli. Yn yr ardaloedd hynny, ceir llai o sicrwydd o safbwynt hwyluso datblygu cynaliadwy drwy'r system gynllunio ar lefel leol. Nes ceir Cynlluniau Datblygu llawn ledled Cymru, gallai'r fframwaith i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau cynllunio sy'n sicrhau canlyniad cadarnhaol o ran cynaliadwyedd fod yn llai clir a chadarn.

Beth yr ydym am ei newid?

Rydym am gryfhau ein polisi cynllunio cenedlaethol (*Polisi Cynllunio Cymru*) er mwyn atgyfnerthu'r angen i baratoi a mabwysiadu Cynlluniau Datblygu a chyflwyno dull gweithredu a gaiff ei arwain gan gynllun, a chryfhau'r fframwaith a ddefnyddir i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau unigol er mwyn hwyluso datblygu cynaliadwy ymhellach.

Rydym am glywed eich barn am y newidiadau a gynigir gennym i *Polisi Cynllunio Cymru*.

Cynnwys

Rhagair	1
Beth yw'r prif faterion?	4
Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?	9
Beth yw'r prif newidiadau yr ydym yn eu cynnig?	8
Beth fydd yn digwydd nesaf?	13
Cwestiynau ymgynghori.....	13
 Atodiad A – Ardaloedd sydd â Chynllun Datblygu	 14
Atodiad B – Rhestr o'r cyrff/sefydliadau a wahoddwyd i ymateb i'r ymgyngoriad hwn	 15
Atodiad C – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad [Dogfen ar wahân]	

Beth yw'r prif faterion?

Datblygu Cynaliadwy

1. Mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i gael cynllun sy'n egluro sut y byddwn yn hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy, ac rydym wedi dechrau ar raglen uchelgeisiol a hirdymor o fentrau polisi i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth o ran sicrhau Cymru gynaliadwy, a eglurir yn ein Cynllun, sef *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*. Mae'r ymrwymiad hwn yn seiliedig ar ein dyletswydd o ran datblygu cynaliadwy dan Adran 79 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
2. Rydym eisoes wedi cyhoeddi dogfen drafod ynghylch ein cynnig i ddeddfu drwy Fil Datblygu Cynaliadwy er mwyn cryfhau ein dull o sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol ym mhob un o'n gweithredoedd ar draws y Llywodraeth ac ar draws pob corff cyhoeddus datganoledig. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ynghylch ein cynigion yn ystod 2012. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yma <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/sdbill/?lang=cy>.
3. Datblygu cynaliadwy yw'r broses o gyrraedd y nod sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. Caiff ein dull o sicrhau datblygu cynaliadwy ei egluro yn ein *Cynllun Datblygu Cynaliadwy* (2009). Ei fwriad yw ceisio gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau yng Nghymru dros y tymor hir. Gwneir hynny mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb i bawb, ac sy'n lleihau ein defnydd o adnoddau'r ddaear ac sy'n ein symud i fyw o fewn terfynau ein hadnoddau. Mae'n ddull gweithredu sy'n canolbwyntio'n bendant ar wella a chynnal ansawdd bywyd a lles pobl, yn awr ac yn y dyfodol. Mae ein Cynllun yn nodi gweledigaeth ynghylch sut y byddai Cymru gynaliadwy yn ymddangos.
4. Caiff ein diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ei gynnwys yn ein *Cynllun Datblygu Cynaliadwy*:

"...gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol:

 - a. *mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;*
 - b. *mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parhau ei derfynau – gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol".*
5. Y nod byd-eang ar gyfer datblygu cynaliadwy yw galluogi pawb ym mhob cwr o'r byd i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a mwynhau ansawdd bywyd gwell heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n egwyddor sydd wedi'i mabwysiadu'n rhyngwladol ac sy'n golygu y dylai materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gael eu hystyried **ar yr union adeg** y caiff cynlluniau eu llunio ac y caiff penderfyniadau eu

gwneud ar gyfer y dyfodol. Yr hyn a olygwn wrth sôn am ddatblygu cynaliadwy yw dull o wneud penderfyniadau sydd:

- Yn edrych ar bethau o safbwynt tymor hir, yn enwedig drwy osgoi costau hirdymor y bydd yn rhaid i genedlaethau'r dyfodol eu talu.
 - Yn gofyn am integreiddio rhwng canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
 - Yn llai cymhleth, ac yn caniatáu i ragor o adnoddau gael eu cyfeirio at waith darparu gwasanaethau rheng flaen.
 - Yn annog meddwl cydlynol oddi mewn i sefydliadau a rhyngddynt.
 - Yn gofyn am gyfranogaeth frwd gan y sawl y bydd penderfyniadau'n effeithio arnynt¹.
6. Mae ein *Cynllun Datblygu Cynaliadwy* yn nodi bod y system gynllunio yn un o'r pedair thema allweddol sy'n ategu'r dull o leihau ein hól troed ecolegol a sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae'r Cynllun yn nodi mai nod cyffredinol y system gynllunio yw darparu tir ar gyfer cartrefi, isadeiledd, buddsoddiad a swyddi mewn modd sy'n helpu i leihau ein hól troed ecolegol. Gellir gweld *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: Cynllun Datblygu Cynaliadwy* (2009) yma:
<http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet?lang=cy>
7. Ym mis Ionawr 2011 cyflwynodd Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar ei *Ymchwiliad i Bolisiau Cynllunio yng Nghymru*². Roedd yn argymhell (yn Argymhelliad 8) y dylai Llywodraeth Cymru "...ystyried cyflwyno yn ei pholisi cynllunio ragdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy". Cafodd yr argymhelliad hwn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.
8. Ym mis Mehefin 2011 dywedodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy y byddem yn diwygio polisi cynllunio cenedlaethol i gyflwyno rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy. Nododd y Gweinidog unwaith eto mai'r ffordd orau o sicrhau bod penderfyniadau cynllunio cynaliadwy'n cael eu gwneud yw sicrhau bod cynllun datblygu wedi'i ddiweddararu ar waith.
9. Mae'r papur ymgynghori hwn yn nodi ein cynigion i gryfhau *Polisi Cynllunio Cymru* a chyflwyno datganiad clir ynghylch y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy.

¹ Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned – Papur Trafod Llywodraeth Cymru – Bil Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru (2011)

² Ymchwiliad i Bolisiau Cynllunio yng Nghymru – Ionawr 2011, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cynaliadwyedd (2011) Gweler yma: http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-assembly-publications-committee-inquiries/research-completed_inquiries.htm#sustainabilitycompleted

Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

10. Diben y system cynllunio defnydd tir yw gosod y fframwaith a rheoleiddio'r broses o ddatblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd, gan ystyried materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn llawn. Dylai'r system gyfrannu at strategaethau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir yn gynaliadwy.
11. Caiff ein hamcanion a'n hegwyddorion cenedlaethol ynghylch cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd eu hegluro yn *Polisi Cynllunio Cymru a Polisi Cynllunio Mwynau Cymru*. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* yn egluro'r fframwaith cyffredinol ar gyfer y system cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Caiff ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN), a chaiff cyngor ynghylch gweithdrefnau ei roi mewn cylchlythyrau a llythyrau egluro polisi. Cafodd *Polisi Cynllunio Cymru* ei gyhoeddi gyntaf yn 2002 gan ddarparu polisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau i'w hystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio. Caiff *Polisi Cynllunio Cymru* ei adolygu'n gyson a'i ddiweddarau'n aml. Mae datblygu cynaliadwy wedi'i ymgorffori mewn polisi cynllunio cenedlaethol ers i *Polisi Cynllunio Cymru* gael ei argraffu gyntaf, a pharheir i gyhoeddi diweddariadau dilynol gyda'r bwriad o hyrwyddo datblygu cynaliadwy.
12. Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ('Deddf 1990') a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ('Deddf 2004') yn gosod y cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer y modd y dylai'r broses o newid defnydd tir yng Nghymru gael ei rheoli. Mae'r broses honno'n dibynnu ar ddull gweithredu **a gaiff ei arwain gan gynllun**, a ategir wrth i Gynllun Datblygu gael ei gyhoeddi sy'n egluro amcanion yr Awdurdod Cynllunio Lleol o safbwynt datblygu a defnyddio tir yn ei ardal ac sy'n egluro ei bolisiau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny³. Dyma'r prif fathau o gynlluniau datblygu:

Cynlluniau Strwythur⁴ a gâi eu paratoi gan yr hen Gynghorau Sir;

Cynlluniau Lleol⁵ a gâi eu paratoi gan yr hen Gynghorau Dosbarth;

Cynlluniau Datblygu Unedol (CDU)⁶ a gaiff eu paratoi gan Awdurdodau Unedol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol;

Cynlluniau Datblygu Lleol⁷ (CDLI) a gaiff eu paratoi gan Awdurdodau Unedol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

13. Dan y fframwaith deddfwriaethol cyfredol (Deddf 2004) rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar

³ Adran 62(2) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

⁴ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968

⁵ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968

⁶ Ceir trefniadau pontio i alluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i symud eu Cynlluniau Datblygu Unedol ymlaen i'w mabwysiadu, cyn dechrau paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol

⁷ Cyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

- gyfer ei ardal. Mae deddfwriaeth bresennol yn mynnu bod yn rhaid i gynlluniau gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy ac ystyried polisiau cenedlaethol, Cynllun Gofodol Cymru a'r strategaeth gymunedol leol⁸.
14. Mae Cynllun Datblygu yn darparu'r sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau cynaliadwy rhesymegol a chyson ynghylch y modd y caiff tir ei ddefnyddio a'i ddatblygu. Mae'n ofynnol i CDLau gael eu paratoi gyda'r bwriad o gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy, ac maent yn rhwym wrth Arfarniad Cynaliadwyedd⁹, Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)¹⁰ ac Asesiad Priodol (AP)¹¹.
 15. Pan fydd cynllun wedi'i fabwysiadu, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio'n unol â'r cynllun datblygu perthnasol mabwysiedig, oni bai bod ystyriaethau o bwys yn ei arwain i benderfynu fel arall¹².
 16. *Polisi Cynllunio Cymru*, y Nodiadau Cyngor Technegol, y cylchlythyrau a'r llythyrau egluro polisi yw'r *polisi cynllunio cenedlaethol*, a dylid eu hystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gallent fod yn bwysig i benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol. Maent yn darparu fframwaith polisi yn hytrach na fframwaith cyfreithiol ar gyfer arwain y broses o lunio polisiau lleol a gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli datblygu, ar y sail mai awdurdodau cynllunio lleol, drwy fabwysiadu a chymeradwyo Cynlluniau Datblygu, sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ynghylch goblygiadau lleol ceisiadau cynllunio. Bydd diwygiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol yn cryfhau'r modd y caiff datblygu cynaliadwy ei sicrhau yn y system gynllunio yng Nghymru. Felly, mae polisi cynllunio cenedlaethol yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol os nad oes cynllun datblygu mabwysiedig neu os yw polisiau mewn cynllun datblygu mabwysiedig wedi'u disodli neu wedi dyddio yng nghyd-destun polisi cynllunio cenedlaethol.
 17. Bwriad y dull gweithredu **a gaiff ei arwain gan gynllun** yw creu mwy o sicrwydd yn y system gynllunio ynghylch pa fathau o ddatblygu fydd yn dderbyniol ac yn annerbyniol o safbwynt cynaliadwyedd, mewn unrhyw leoliad penodol. Ym mis Ionawr 2012, roedd pum CDLI (20%) a phedwar ar ddeg CDU (un ar y cyd) (56%) wedi'u mabwysiadu. Mae rhestr lawn i'w gweld yn Atodiad A.
 18. Nid oes Cynlluniau Strwythur na Chynlluniau Lleol wedi'u paratoi yng ngoleuni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy. Felly, maent yn cynnig llai o sicrwydd o safbwynt hwyluso datblygu cynaliadwy drwy'r system gynllunio.

⁸ Adran 39 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

⁹ Adran 39 ac Adran 62(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

¹⁰ Cyfarwyddeb 2001/42/EC yr UE ar asesu effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd

¹¹ Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc.) 1994 (OS Rhif 1994/2716) (fel y'u diwygiwyd) Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Cyngor

¹² Adran 54A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

19. Yng ngoleuni ein hymrwymiad i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru, rydym yn pryderu bod llai o sicrwydd o safbwynt hwyluso datblygu cynaliadwy drwy'r system gynllunio ar lefel leol yn yr ardaloedd hynny sydd heb gynllun datblygu neu lle mae polisiâu mewn cynlluniau mabwysiedig wedi dyddio neu wedi'u disodli gan ystyriaethau eraill o bwys.

Beth yw'r prif newidiadau yr ydym yn eu cynnig?

20. Rydym am gryfhau ein polisi cynllunio cenedlaethol (*Polisi Cynllunio Cymru*) i gyflwyno datganiad clir ynghylch y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy. Rydym hefyd am nodi'n glir y dylai awdurdodau cynllunio lleol roi llai o bwys ar bolisiâu cynllun datblygu os ydynt wedi dyddio neu wedi'u disodli gan ffafrio ystyriaethau eraill o bwys megis polisi cenedlaethol.
21. Mae'r newidiadau a gynigir gennym i bolisi cynllunio cenedlaethol yn ymdrin â diwygiadau ym Mhenodau 2-4 *Polisi Cynllunio Cymru*. Caiff y prif newidiadau a gynigir i *Polisi Cynllunio Cymru* eu cynnwys isod er mwyn ysgogi ymatebion penodol i'r ymgynghoriad. Dylid darllen y newidiadau hyn ochr yn ochr â'r polisi a'r canllawiau sydd eisoes yn *Polisi Cynllunio Cymru*.

(A) Cyflwyno datganiad clir ynghylch y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy

22. Rydym yn bwriadu cynnwys adran newydd ym Mhennod 4 *Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd* i gryfhau ac egluro'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy. Mae'r datganiad hwn yn ailadrodd yr angen i gael cynllun datblygu mabwysiedig a'r angen i wneud penderfyniadau'n unol â'r cynllun datblygu a chyda'r bwriad o gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Mae manylion yr adran 4.2 newydd arfaethedig i'w gweld isod. Dylid darllen y testun hwn ochr yn ochr â'r testun cyfredol sydd yn *Polisi Cynllunio Cymru*.

Polisi Cynllunio Cymru

Pennod 4 Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd

Adran 4.2 Rôl y system gynllunio o safbwynt sicrhau datblygu cynaliadwy

Rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy

4.2.1 Mae **datblygu cynaliadwy yn y system gynllunio** yn golygu bod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth i gynlluniau gael eu llunio ac wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ar gyfer y dyfodol.

4.2.2 Mae gan y system gynllunio rôl sylfaenol i'w chwarae o safbwynt sicrhau datblygu cynaliadwy. Rhaid iddi ddarparu ar gyfer cartrefi, seilwaith, buddsoddi a swyddi mewn modd sy'n gyson â'n hegwyddorion

cynaliadwyedd (gweler adran 4.3) a'n hamcanion polisi allweddol (gweler adran 4.4).

4.2.3 Dylai awdurdodau cynllunio lleol gyflawni eu swyddogaethau cynllunio gyda'r bwriad o gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy. Dylai fod rhagdybiaeth o blaid datblygiadau sy'n gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau yn awr a thros y tymor hir (datblygu cynaliadwy) (gweler adran 4.1).

4.2.4 Caiff y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ei mynegi drwy'r amcanion polisi allweddol a nodir yn adran 4.4 isod. Cyfrifoldeb y sawl sy'n gwneud penderfyniadau fydd sicrhau cydbwysedd rhwng yr amcanion polisi allweddol hyn a'u cysoni wrth gynllunio ar gyfer eu hardal (gweler Pennod 2) ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau unigol (gweler Pennod 3).

4.2.5 Dull gweithredu a gaiff ei arwain gan gynllun yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ar lefel leol. Cynlluniau Datblygu, pan fyddant wedi'u mabwysiadu (neu'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru) sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer gweithredu'r rhagdybiaeth hon wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau unigol (gweler para 2.7[*newydd*]).

Newidiadau canlyniadol

- Caiff paragraff 4.1.6 ei ddisodli gan adran 4.2 newydd (uchod)
- Mae adran 4.2, *Cynllunio ar gyfer y newid yn yr hinsawdd*, yn symud i adran 4.5, gyda newidiadau canlyniadol ar gyfer gweddill y bennod.

Cwestiwn 1 (Adran 4.2 newydd)

A ydych yn cytuno â'n dull o gryfhau polisi cynllunio cenedlaethol drwy gyflwyno datganiad clir ynghylch y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy?

(B) Rhoi pwys ar bolisi cynllunio cenedlaethol wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau unigol os yw polisi mewn cynlluniau datblygu mabwysiedig neu gymeradwy wedi dyddio neu wedi'i ddisodli.

23. Mae'r datganiad a gynigir ynghylch rhagdybiaeth yn atgyfnerthu'r angen i gael cynllun datblygu mabwysiedig neu gymeradwy a baratowyd gyda'r bwriad o gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Ar hyn o bryd, ceir pedwar gwahanol fath o gynllun datblygu yng Nghymru, fel y nodir ym mharagraff 12 uchod. Mae'r rhain wedi'u paratoi yng nghyd-destun gofynion amrywiol a pholisi cynllunio cenedlaethol.
24. Er mai diben cynllunio erioed fu sicrhau cydbwysedd rhwng galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd, mae CDUau a CDLlau wedi'u paratoi gyda'r bwriad o sicrhau datblygu cynaliadwy. Rhaid i CDLlau, yn ôl statud,

gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy¹³, rhaid iddynt ystyried polisiau cenedlaethol, ac mae'n ofynnol iddynt gynnal arfarniad o gynaliadwyedd y cynllun¹⁴. Yn yr un modd, os awdurdodau fu'n paratoi'r CDUau, roedd yn ofynnol iddynt ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ac roedd disgwyl iddynt gynnal arfarniad cynaliadwyedd llawn o'u cynlluniau datblygu¹⁵. At hynny, mae CDUau a CDLlau wedi'u paratoi yng nghyd-destun Dyletswydd Llywodraeth Cymru o ran Cynaliadwyedd (1998)¹⁶ a *Polisi Cynllunio Cymru* (ers 2002) sy'n ymgorffori datblygu cynaliadwy yn y system gynllunio. Felly, mae CDUau a CDLlau mabwysiedig a chymeradwy'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio er budd datblygu cynaliadwy ar lefel leol.

25. Gallai cynlluniau cynharach na chawsant eu paratoi yng ngoleuni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy gynnig llai o sicrwydd o safbwynt hwyluso datblygu cynaliadwy drwy'r system gynllunio.

'Mabwysiedig a chymeradwy'

26. Y termau 'mabwysiedig' (*'adopted'*) a 'cymeradwy' (*'approved'*) yw'r termau a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol. Yn gryno, y cynllun yw'r cynllun datblygu i'r graddau ei fod yn gynllun **mabwysiedig** drwy benderfyniad gan yr awdurdod cynllunio lleol neu'i fod yn gynllun **cymeradwy** gan Weinidogion Cymru. Nid yw hynny'n cynnwys cynlluniau na chawsant eu mabwysiadu'n llawn ond a 'fabwysiadwyd' gan yr awdurdod cynllunio lleol at ddibenion rheoli datblygu.
27. Pan fydd cynllun datblygu wedi'i fabwysiadu, bydd yn parhau'n gynllun datblygu mabwysiedig nes caiff ei newid neu'i ddisodli. Fodd bynnag, gyda threigl amser, gall *polisiau cynllunio cenedlaethol* cyfredol ddarparu sylfaen polisi sy'n fwy cadarn a pherthnasol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau unigol, yn enwedig os yw polisiau'r cynllun datblygu yn dyddio neu'n cael eu disodli. Mae'r diwygiadau a gynigir ym Mhennod 2 *Cynlluniau Datblygu* yn ceisio atgyfnerthu hynny. Dylid darllen yr adran newydd hon ochr yn ochr â'r testun cyfredol sydd yn *Polisi Cynllunio Cymru*.

Polisi Cynllunio Cymru

Pennod 2 Cynlluniau Datblygu

¹³ Adran 39 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

¹⁴ Adran 62(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

¹⁵ Paragraff 2.18 'Cynlluniau Datblygu Unedol Cymru' (2001) a 'Planning for Sustainable Development: Towards Better Practice' (DETR, 1998).

¹⁶ Deddf Llywodraeth Cymru 1998

2.6 Yr hyn sy'n digwydd pan nad yw cynllun datblygu wedi ei fabwysiadu eto (cyfredol)

2.6.2 [testun newydd ar ddiwedd y paragraff]

Gall polisi cynllunio cenedlaethol fod yn ystyriaeth o bwys hefyd yn yr amgylchiadau hyn.

2.7 Yr hyn sy'n digwydd pan fydd polisïau cynllun datblygu wedi dyddio neu wedi'u disodli? (newydd)

2.7.1 Mewn achosion lle mae polisïau cynllun datblygu wedi dyddio neu wedi'u disodli, dylai awdurdodau cynllunio lleol roi llai o bwys arnynt gan ffafrio ystyriaethau eraill o bwys megis *polisi cynllunio cenedlaethol* wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau unigol. Bydd hynny'n sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu seilio ar bolisïau sydd wedi'u hysgrifennu gyda'r bwriad o gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy (gweler paragraff 1.1.4 ac adran 4.2 [newydd]).

2.7 Datganiadau Polisi – Polisi Cynllunio Cymru (2.7 ar hyn o bryd)

2.8.4 Lle bo hynny'n briodol dylai'r polisïau cenedlaethol ar reoli datblygu, a nodir yma, gael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau unigol, yn enwedig os yw polisi cynllunio cenedlaethol yn darparu ar gyfer polisi mwy diweddar ar bwnc penodol (gweler paragraff 2.7 [newydd] ac adran 4.2 [newydd]).

Newidiadau canlyniadol:-

- Mae adran 2.7 *Datganiadau Polisi – Polisi Cynllunio Cymru* yn troi'n adran 2.8 yn awr.

Cwestiwn 2 (Adran newydd yn 2.7)

Mewn achosion lle mae polisïau cynllun datblygu wedi dyddio neu wedi'u disodli, a ydych yn cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol roi llai o bwys arnynt gan ffafrio ystyriaethau eraill o bwys megis polisi cynllunio cenedlaethol?

(C) Crynodeb o'r diwygiadau a gynigir

28. Mae crynodeb o'r diwygiadau a gynigir wedi'i gynnwys yn y tabl isod. Mae'r crynodeb yn cynnwys adrannau o *Polisi Cynllunio Cymru* lle cynigir croesgyfeiriadau a mân ddiwygiadau i'r testun (na chânt eu nodi'n fanwl) er mwyn cefnogi'r newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn.

Crynodeb o'r newidiadau a gynigir i *Polisi Cynllunio Cymru*

Pennod 1 Rhagarweiniad	
1.2 (croesgyfeiriad)	Croesgyfeiriad newydd at adran newydd 4.2 Rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy.
Pennod 2 Cynlluniau Datblygu	
2.7 (adran newydd)	Cyfeiriwch at baragraffau 23-27 (t.12-13) y ddogfen ymgynghori hon i gael manylion y newidiadau a gynigir.
2.8.4 (paragraff newydd)	Cyfeiriwch at baragraff 27 (t.13) y ddogfen ymgynghori hon i gael manylion y newidiadau a gynigir.
Pennod 3 Gwneud Penderfyniadau Cynllunio a'u Gorfodi	
3.1.2 (croesgyfeiriad)	Croesgyfeiriad newydd ar ddiwedd y paragraff at y datganiad a gynigir ynghylch rhagdybiaeth yn adrannau newydd 4.2 a 2.7.
3.1.3 (croesgyfeiriad)	Croesgyfeiriad newydd ar ddiwedd y paragraff at adran newydd 4.2.
Pennod 4 Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd	
4.2 (adran newydd)	Cyfeiriwch at baragraff 22 (t.11) y ddogfen ymgynghori hon i gael manylion y newidiadau a gynigir. Mae'r adran newydd hon yn disodli paragraff 4.1.6, gyda newidiadau canlyniadol.
4.5 (symud)	Rydym yn cynnig symud adran 4.2 fel y mae ar hyn o bryd <i>Cynllunio ar gyfer y newid yn yr hinsawdd</i> i adran 4.5, gyda newidiadau canlyniadol i adrannau 4.5 i 4.12 fel y maent ar hyn o bryd.
4.4.2 (testun newydd wedi'i danlinellu)	4.4.2 Dylai polisïau, cynigion a phenderfyniadau cynllunio: ..

Cwestiwn 3
Rydym wedi gofyn dau gwestiwn penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i fynegi eich barn.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

29. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn adolygu ac yn dadansoddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaw i law. Efallai y byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan ac yn cyhoeddi adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad. Efallai y byddwn yn ymgynghori'n uniongyrchol â rhanddeiliaid, ac yn defnyddio ein systemau cyfredol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid i drafod unrhyw faterion pellach.
30. Byddwn yn ceisio cyhoeddi'r newidiadau terfynol i *Polisi Cynllunio Cymru* mewn argraffiad newydd erbyn haf 2012.

Cwestiynau ymgynghori

31. Drwy'r ddogfen i gyd rydym wedi nodi nifer o gwestiynau ymgynghori penodol sy'n ymwneud â'r newidiadau a gynigir i *Polisi Cynllunio Cymru*. Caiff y rhain eu hailadrodd isod, ac maent wedi'u cynnwys hefyd ar y **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** yn Atodiad C.
32. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau, llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Mae manylion llawn yr ymgynghoriad i'w gweld ar glawr mewnol y ddogfen hon.

Cwestiwn 1	(Adran 4.2 newydd)
A ydych yn cytuno â'n dull o gryfhau polisi cynllunio cenedlaethol drwy gyflwyno datganiad clir ynghylch y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy?	
Cwestiwn 2	(Adran 2.7 newydd)
Mewn achosion lle mae polisïau cynllun datblygu wedi dyddio neu wedi'u disodli, a ydych yn cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol roi llai o bwys arnynt gan ffafrio ystyriaethau eraill o bwys megis polisi cynllunio cenedlaethol?	
Cwestiwn 3	
Rydym wedi gofyn dau gwestiwn penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i fynegi eich barn.	

Atodiad A – Ardaloedd sydd â Chynllun Datblygu

Ardaloedd sydd â Chynllun Datblygu		
	Dyddiad mabwysiadu	Cyfnod y cynllun
Cynllun Datblygu Lleol		
Caerffili	Rhag. 2010	2006-2021
Merthyr Tudful	Mai 2011	2006 - 2021
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Medi 2010	2010 ⁺ - 2021
Rhondda Cynon Taf	Maw. 2011	2006- 2021
Parc Cenedlaethol Eryri	Gorff. 2011	2007 - 2022
Cynllun Datblygu Unedol		
Blaenau Gwent	Gorff. 2006	1996 - 2011
Pen-y-bont ar Ogwr	Mai 2005	2001 - 2016
Sir Gaerfyrddin	Gorff. 2006	2001- 2016
Sir Ddinbych	Gorff. 2002	1996 - 2011
Sir y Fflint	Tach. 2011	2000 - 2015
Gwynedd	Gorff. 2009	2001 - 2016
Sir Fynwy	Meh. 2006	1996 - 2011
Castell-nedd Port Talbot	Maw. 2008	2001 - 2016
Casnewydd	Mai 2006	1996 - 2011
Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro (ar y cyd)	Gorff. 2006	2000 - 2016
Powys	Maw. 2010	2001 - 2016
Abertawe	Tach. 2008	2008 ⁺ - 2016
Bro Morgannwg	Ebr. 2005	1996 - 2011
Wrecsam	Chwef. 2005	1996 - 2011
Arall (Cynllun Strwythur / Cynllun Lleol) neu ddim cynllun o gwbl		
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	1999	+
Caerdydd	1996	+
Ceredigion	Dim cynllun	
Conwy	Dim cynllun*	
Ynys Môn	1996	+
Torfaen	2000	+
⁺ Ni roddwyd dyddiadau cychwyn – dim ond y dyddiad mabwysiadu [*] Cynllun Lleol - Colwyn 1999, Llandudno a Chonwy 1982		

Atodiad B – Rhestr o'r cyrff/sefydliadau a wahoddwyd i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Pob Awdurdod Cynllunio Lleol (25)	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd	Cymdeithas Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
Adran y Gyfraith Prifysgol Caerdydd	Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion
Anabledd Cymru	Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru
Architecture Verte Ltd	Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)
Arolygiaeth Gynllunio Cymru	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Arup	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
BRE Global Ltd	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Bwrdd Croeso Cymru (Croeso Cymru)	Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd
Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru
Cadw	Cymorth Cynllunio Cymru Cymru Gynhaliol
Canolfannau Cyngor ar Bopeth	Cynnal Cymru
Capita Symonds	Cyswllt Amgylchedd Cymru
Cartrefi Cymunedol Cymru	Chwaraeon Cymru
CBI Cymru	Development Planning Partnership
CFfi Cymru	DTZ
Cofrestrfa Tir – Swyddfa Cymru	Dyfrffyrdd Prydain
Comisiwn Coedwigaeth Cymru	Entec UK Ltd
Comisiwn Dylunio Cymru	Geldards
Comisiwn Hawliau Anabledd Cymru	Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
Comisiynwyr Ystad y Goron	GMB
Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy	Greenpeace UK
Comisiynydd Plant Cymru	Grŵp Cymru Ddigarbon
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	Gwasanaethau Cynllunio Gwlad a Thref (Conwy)
Cyfeillion y Ddaear Cymru	
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar	
Cyngor Cymru i'r Deillion	
Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer	

Gweithredu Gwirfoddol Swydd Henffordd	Unite
Gweithredwr Maes Awyr Caerdydd	WWF Cymru
Land Use Consultants	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Menter Gymunedol Cymru	Y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai
Network Rail	Y Cyngor Hysbysebu yn yr Awyr Agored
NFU Cymru	Y Ganolfan Cynllunio ac Amgylcheddau Cynaliadwy
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Planning Consultants Forum	Y Ffederasiwn Busnesau Bach
Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl	Y Gwasanaeth Traffig Awyr Cenedlaethol
Race Equality First	Y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref
RNIB Cymru	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
RNID Cymru	Y Weinyddiaeth Amddiffyn
RPS Planning and Development	Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru
RSPB – Pencadlys Cymru	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig - Cymru	Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol
Sefydliad Tai Siartredig	Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
Sefydliad Tirwedd Cymru	Yr Awdurdod Glo
Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Stroma Accreditation	Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Swyddog Cyswllt yr Heddlu	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
TGWU	Yr Ymddiriedolaeth Theatrau
TUC Cymru	Ysgol Bensaerniaeth Cymru
Turley Associates	Prifysgol Caerdydd
The Outdoor Media Centre Ltd	Ysgol Gynllunio Bartlett
Un Llais Cymru	
Undeb Amaethwyr Cymru	

WG-14377

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd
Y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy

Dyddiad cyhoeddi: **2 Mawrth 2012**
Ymatebion erbyn: **25 Mai 2012**

www.cymru.gov.uk